Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI 144

**Amseru:** Brys

**Teitl:** Gwobrwyo'r tendr ar gyfer y cynllun Dargyfeirio Troseddwyr

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Comisiynu

**Crynodeb Gweithredol:** Mae Cofnod Penderfyniad DLI129 yn amlinellu'r penderfyniad i ymgymryd â phroses dendro lawn ar gyfer Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr er mwyn caniatáu gwobrwyo cytundeb Heddlu cyfan i'r darparwr llwyddiannus o 1 Tachwedd 2019.

Cychwynnodd y broses dendro ym mis Gorffennaf 2019 ac eisteddodd panel gwerthuso ar 9 Medi, lle y cyrhaeddwyd sgorau consensws. Roedd y panel gwerthuso'n cynnwys Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr Adran Cyfiawnder Troseddol a'r Uwch-arolygydd sy'n gomander sir URS dros Bowys ar ran yr Heddlu, a'r Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer y CHTh. Cefnogwyd y panel drwy gydol y broses gan y Rheolwr Caffael a Chytundebau.

Cynhaliwyd cyfweliadau gyda'r darparwyr ar 11 Medi a daeth hoff ddarparwr i'r amlwg, gan arwain ar sgorau masnachol a thechnegol (mae'r adroddiad sydd ynghlwm yn rhoi manylion pellach am sgorau a chyllidebau). Gan hynny, mae'r panel yn argymell rhoi'r cytundeb i Gwalia.

O ystyried yr amserlen fer ar gyfer gweithredu, gofynnir i'r CHTh ymgymryd â'r penderfyniad hwn, mewn trafodaethau gyda'r PSA a'r Prif Gwnstabl, cyn cyfarfod y Bwrdd Plismona ar 24 Medi 2019. Golyga hyn y gellir cyfathrebu'n gynt â'r darparwr llwyddiannus fel bod cynlluniau gweithredu'n medru cychwyn yn dilyn y cyfnod dim symud.

**Argymhelliad:** Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gymeradwyo gwobrwyo cytundeb i sefydliad Gwalia ar gyfer darpariaeth cynllun dargyfeirio troseddwyr ar draws ardal Dyfed-Powys, gan gychwyn ar 1 Tachwedd 2019 am uchafswm cost o £250,000 y flwyddyn. Bydd y cytundeb yn rhedeg am gyfnod o 2 flynedd, gyda dewis o hyd at 3 cyfnod estyniad blynyddol.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 18/9/2019

1. **Cefndir**

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg o'r broses dendro ar gyfer darpariaeth cynllun dargyfeirio troseddwyr. Cynllun amlasiantaeth ydyw sy'n ceisio mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol yn gynt o lawer yn ystod taith troseddu unigolyn. Hefyd, mae'n gwella ymwybyddiaeth o wasanaethau sy'n seiliedig ar iechyd, a mynediad atynt, ar gyfer pawb sy'n cyflawni troseddau lefel is. Cynhaliwyd cystadleuaeth agored Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd er mwyn rhoi cyfle i gyflenwyr lleol a BBaCh gynnig am y cyfle.

Gwobrwyir y cyfle am gyfnod o 2 flynedd, gyda'r dewis i estyn am 3 blynedd arall yn cael ei wobrwyo ar sail flynyddol.

2. **Y Cwmpas**

**Nodau ac amcanion y cynllun**
Cyflenwi gwasanaethau cymorth sy'n gwella gallu'r troseddwr i fyw bywyd cynhyrchiol yn rhydd rhag troseddu yn y gymuned.

Bydd y troseddwyr sy'n rhan o'r cynllun a gyflwynir gan y Darparwr yn cyflawni un neu fwy o'r amcanion canlynol:

- Gwell mynediad at wasanaethau ar gyfer mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu
- Llai o aildroseddu
- Y gallu i wneud newidiadau cadarnhaol
- Gwell diogelwch

**Darpariaeth gwasanaeth**
Bydd y gwasanaeth a ddarperir yn:

- Dargyfeirio troseddwyr rhag y system cyfiawnder troseddol;
- Cynnwys yr heddlu er mwyn cyfeirio troseddwyr cymwys i'r gwasanaeth;
- Cwblhau asesiadau anghenion, gan gynnwys arfau mesur canlyniadau a sgrinio risg, gyda'r troseddwyr cymwys sy'n cael eu cyfeirio;
- Derbyn troseddwyr addas a chymwys i'r cynllun;
- Darparu cefnogaeth ac ymyrraeth a addaswyd ar gyfer anghenion i'r rhai sy'n cael eu derbyn i'r cynllun cyn gynted â phosibl;
- Gwneud cyfeiriadau ymlaen i wasanaethau prif ffrwd a gwasanaethau trydydd sector eraill (darparwr arall neu ddarparwyr eraill)

3. **Cyllideb**

Y gyllideb amcangyfrifol ar gyfer y prosiect hwn yw £250,000 y flwyddyn. Bydd y cytundeb mewn grym ar gyfer 1 Tachwedd. Dangosir y costau ar gyfer cyfnod gwreiddiol y cytundeb isod:

| Proffil cost | 01/11/2019 tan 31/03/2020 | 01/04/2020 tan 31/03/2021 | 01/04/2021 tan 30/10/2021 |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Cyfanswm costau** | **£96,013** | **£253,210** | **£150,346** |

Os yw cyfnodau estyniad y cytundeb yn cael eu harfer, cyfanswm gwerth y cytundeb fydd £1,250,000.

Bydd y gyllideb yn cael ei rheoli gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Y cod cyllideb perthnasol yw 720 PZPB PM030. Y gyllideb sydd ar gael yw £250,000 y flwyddyn.

## 4. Y Broses Dendro

Cyhoeddwyd y cyfle caffael fel tendr agored Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd drwy gwerthwchigymru ar 3 Gorffennaf 2019, i'w gwblhau'n electronig gan ddefnyddio eDendroCymru. Y dyddiad cau ar gyfer y prosiect hwn oedd 12 Awst 2019. Cofrestrodd 22 cyflenwr ddiddordeb yn yr ymarfer tendro hwn.

Y cyflenwyr a gyflwynodd ymateb oedd:

- 3SC
- Kaldeiscope
- Gwalia/Pobl

Roedd y tendr yn seiliedig ar feini prawf o 40% Cost (100 pwynt) a 60% Ansawdd (150 pwynt).

Roedd aelodau'r panel gwerthuso tendr yn cynnwys:-

- Yr Uwch-arolygydd Ifan Charles
- Alison Perry – Cyfarwyddwr Comisiynu SCHTh
- Irene Davies Jones – Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr Adran Cyfiawnder Troseddol

Cadarnhaodd pob aelod o'r panel nad oedd ganddynt unrhyw fuddiannau a oedd yn gwrthdaro o ran y tendrwyr.

## 5. Crynodeb o'r Cynigion

Roedd cynigion masnachol cychwynnol a dderbyniwyd yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael fel a ganlyn:

Er mwyn ymdrin â llwyth achos o 10 cyfeiriad y dydd, cytundeb blynyddol:

**3SC £994,952.00**

**Gwalia £494,906.00**

**Kaleidoscope £346,151.23**

Gofynnwyd i bob darparwr a gyflwynodd cynnig gyflwyno cynnig gorau a therfynol yn seiliedig ar gyllid o £250,000 y flwyddyn am gyfnod cychwynnol o 2 flynedd.

Gwrthododd 3SC gyflwyno cynnig yn seiliedig ar y gofyniad hwn. Cyflwynodd Gwalia a Kaleidoscope eu cynigion arfaethedig i'r panel gwerthuso yn ystod y cam cyfweld.

Roedd cynigion diwygiedig a gyflwynwyd ar gyfer cytundeb dwy flynedd fel a ganlyn:

**Gwalia £499,569**

**Kaleidoscope £524,790**

Mae'r darparwyr wedi cadarnhau na fydd y gostyngiad o ran cost yn effeithio ar gyflenwi gwasanaeth.

Yn dilyn gwerthusiad technegol a masnachol, arddangosir y sgorau terfynol yn y tabl isod.

| Cyflenwr | Sgôr Technegol - Uchafswm o 150 | Sgôr Masnachol – Uchafswm o 100 | Sgôr Cyffredinol |
|---|---|---|---|
| Gwalia | 106.00 | 100.00 | 206.00 |
| Kaleidoscope | 90.00 | 95.91 | 185.91 |

## 6. Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981

Mae Gwalia wedi rhedeg y prosiect peilot o'r blaen yn Sir Benfro, felly bydd y staff sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd yn parhau i weithio

ar y cynllun newydd, gan ddileu'r angen ar gyfer Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981 rhwng darparwyr.

**7. Cynaliadwyedd**

Gwerthusir cynaliadwyedd yn ystod agwedd Cymhwysedd y tendr.

**8. Amrywiaeth**

Gwerthusir amrywiaeth yn ystod agwedd Cymhwysedd y tendr.

**9. Argymhellion**

Yn dilyn gwerthusiad o bob ymateb tendr a gyflwynwyd a bodloni gofynion HDP a SCHTh, argymhellir gwobrwyo'r cytundeb ar gyfer darpariaeth cynlluniau dargyfeirio troseddwyr i Gwalia am gyfnod o 2 flynedd, gyda dewis o hyd at 3 cyfnod estyniad blynyddol.